# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

## ar gyfer cyplau

# Sut i wneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpwl.

Mae Credyd Cynhwysol yn wasanaeth newydd sy'n cefnogi pobl sydd ar incwm isel neu'n ddi-waith ac yn helpu i sicrhau eu bod yn well eu byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau.

Ers yr haf 2014 mae wedi bod yn cael ei hawlio gan rhai cyplau mewn rhai ardaloedd o'r DU.

Cwpwl yw 2 oedolyn yn yr un cartref sy'n briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda'u gilydd fel petaent yn briod.



### Gwneud cais ar y cyd ar-lein

Ewch i **www.gov.uk/universalcredit** i weld os gallwch wneud cais. Gall un person wneud y cais ar ran y ddau ohonoch. Mae'r ddau ohonoch yn derbyn apwyntiadau gan y Ganolfan Byd Gwaith i ddod i mewn i gwrdd â'ch anogwr gwaith.

### Cwrdd â'ch anogwr gwaith

Mae gan bob un ohonoch eich **Ymrwymiad Hawlydd** eich hunain a luniwyd gyda'ch anogwr gwaith. Mae'n nodi'r cyfrifoldebau mae pob un ohonnoch wedi'u derbyn yn gyfnewid am gael Credyd Cynhwysol, ac mae'n egluro beth allai ddigwydd os na fyddwch yn gwneud beth rydych wedi'i gytuno.

### Chwilio am waith

Bydd eich anogwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith yn eich cefnogi a'ch herio i wneud popeth y gallwch i ddod o hyd i waith. Byddwch yn cael **help a chyngor** arbenigol, ac yn gyfnewid yn cymryd cyfrifoldeb personol am ddod o hyd i waith cyn gynted ag y gallwch.

### Cael eich taliad sengl cyntaf ar gyfer y cartref

Bydd y cartref yn cael **taliad sengl misol** i dalu eich rhent a biliau eraill. Bydd hwn fel arfer yn cael ei dalu i mewn i gyfrif ar y cyd i'ch helpu i reoli eich arian gyda'ch gilydd. Neu gallwch enwebu i daliadau gael eu gwneud i un o'ch cyfrifon os ydych yn dewis. Gallwch hefyd gael ystod o gymorth i'ch helpu i gyllidebu.

### Dweud wrthym os yw eich sefyllfa'n newid

Rydych yn dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith **ar unwaith ar 0345 600 3018*** os yw eich amgylchiadau'n newid. Gall hyn fod oherwydd bod un neu'r ddau ohonoch yn dechrau gweithio neu os ydych yn stopio bod yn gwpwl neu'n dechrau teulu. Efallai y bydd hefyd angen newid eich Ymrwymiadau Hawlydd.

### Symud i mewn i waith a pharhau i gael cefnogaeth

Gallech barhau i **gael rhywfaint o Gredyd Cynhwysol pan fyddwch yn dechrau gweithio**. Bydd Credyd Cynhwysol yn ychwanegu at eich enillion, gan leihau yn raddol wrth i'w oriau neu incwm gynyddu.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/universalcredit**

*Nid yw galwadau i rifau 0345 yn costio dim mwy na galwad ddaearyddol safonol, ac maent yn cyfrif tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich cytundeb llinell ddaearol neu ffôn symudol.